

Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol Cross Party Group on Hospices and Palliative Care

19 Chwefror 2019, Ystafell Gynadledda 5, Tŷ Hywel

19 February 2019, Conference Room 5, Tŷ Hywel

Cofnodion | Minutes

Yn bresennol | In attendance

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)	Dr Dai Lloyd AC
Liz Andrews, Hosbis y Ddinas	Kay Jeynes, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Stephen Bassett, 111 GIG / Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Ian Jones, Meddygfa Glyn Ebwy
Kathleen Caper, Hospice UK	Tracy Jones, Tŷ Hafan
Paula Davies, BILIPCF	Sarah Lloyd-Davies, Marie Curie
Catrin Edwards, Hospice UK (Ysgrifenyddiaeth)	Greg Pycroft, Macmillan
Stephen Edwards, BILIAB	Monica Reardon, Marie Curie
Carolyn Gent, Marie Curie	Ruth Richardson, Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys
Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith	Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant
Paul Harding, Marie Curie	Kevin Thomas, Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Laura Hugman, Hosbis Paul Sartori	Andrew Wilson-Mouasher, Marie Curie

Ymddiheuriadau | Apologies

Helen Mary Jones AC	Llyr Gruffydd AC
Mohammad Asghar AC	Gary Doherty, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
Steve Parry, Hosbis Tŷ'r Eos	Iain Mitchell, Hosbis Sant Cyndeyrn
Debbie Jenkins, BILIAB	Richard Bowen, 111 GIG
Jina Hawkes, BILIPHDD	

Cofnodion y cyfarfod diwethaf | Minutes from the last meeting

Cadarnhawyd y cofnodion.

Materion yn codi

Rhoddodd y Grŵp Trawsbleidiol dystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 13 Rhagfyr. Yn ddiweddar, lansiodd y pwyllgor [ymgyngoriad i Nyrsio Ardal a Chymuned](#), a fydd yn cynnwys ei rôl wrth ddarparu gofal lliniarol.

Gofal lliniarol y tu allan o oriau | Palliative care out of hours

Cyfeiriwyd y rhai a oedd yn bresennol at lythyr y Grŵp Trawsbleidiol, dyddiedig 10 Hydref 2018, at bob bwrdd iechyd a 111 GIG ynglŷn ag argymhelliad ymchwiliad 2018 ar ystyried a darparu adnoddau gofal lliniarol i oedolion a phediatreg y tu allan i oriau gwaith. Nodwyd bod yr holl fyrddau iechyd ac 111 GIG wedi ymateb i gydnabod derbyn y llythyr ac i gadarnhau eu parodrwydd i ymgysylltu â'r Grŵp Trawsbleidiol, gan gynnwys bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Cyflwyniad gan Dr Stephen Bassett, 111 GIG a BILIPABM

- 111 GIG yw'r gwasanaeth rhadffôn 24/7 sy'n un man mynediad at ofal sylfaenol y tu allan i oriau.
- Ar hyn o bryd yn cael ei gyflwyno yn BILIPABM, BILIPHDd a BLIAP. Bydd yn weithredol yn BILIAN o Ebrill 2019, BIPCT o Hydref 2019 a BCUHB a BILIPCF yn 2020.
- Mae adroddiadau diweddar, e.e. [Marie Curie a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol](#) a gwerthusiad o wasanaeth y tu allan i oriau Shropdoc wedi bod yn feirniadol o ddarpariaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau ond maent yn nodi bod y rhwystrau yn rhai logistaidd yn unig a dylai gwelliant fod yn bosibl.
- Y pedwar maes lle mae 111 GIG wedi nodi heriau a chyfleoedd o ran gofal lliniarol y tu allan i oriau yw:
 1. Un man mynediad a chydlyniad
 - Mae'r system yn cysylltu'n awtomatig â phob practis meddyg teulu ac mae nodiadau cleifion arbennig, megis y rhai sy'n cael eu cadw ar gyfer cleifion lliniarol, yn cael eu cyfeirio at y rhai sy'n ymdrin â galwadau.
 - Mae hyn yn atal yr ymateb awtomatig o alw ambiwlans ar gyfer mynediad brys i ysbyty. Byddai angen i glinigydd wneud penderfyniad i dderbyn y person i'r ysbyty.
 - Gall gydlynu darpariaeth nyrsio ardal yn uniongyrchol.
 - Mae'n caniatáu ar gyfer rhanbartholi cyngor clinigol lefel uwch. Mae ymgynghorydd gofal lliniarol ar gyfer ardaloedd BILIPABM a BILIPHDd yn cael ei recriwtio ar hyn o bryd.
 2. Cynllunio gofal ymlaen llaw

- Roedd angen cyfleuster gwell ar gyfer cyfrannu at gynllunio gofal ymlaen llaw.
- Os yw claf yn cael ei gydnabod fel claf lliniarol ond nid oes ganddo gynllun gofal ymlaen llaw ar waith, gall y clinigwr nodi a fyddai cynllun gofal ymlaen llaw yn ddefnyddiol. Mae hyn yn sbarduno adroddiad i'r meddyg teulu.

3. Cyfathrebu electronig, gan gynnwys rhagnodi

Wedi sefydlu cysylltiadau gyda'r system nyrsio ardal yn BILIPABM a BILIPHDDd.

4. Logisteg (offer, meddyginiaeth a stoc)

Daearyddol: efallai na fydd ffiniau gweinyddol bwrdd iechyd a lleoliad meddygfeydd bob amser yn cyd-fynd ar gyfer pob claf.

Gweinyddol: gall staff deimlo'n bryderus wrth weinyddu cyffuriau rheoledig.

Pobl: nid yw pawb yn glir ynglŷn â'u rôl yn y broses, neu gall rhai pobl gyfyngu eu cyfraniadau, gan ei weld fel gwaith pobl eraill.

- Gwnaed cynnydd gyda'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn symud o fod yn seiliedig ar feddyg teulu yn bennaf i gael ei weld fel gwasanaeth sy'n darparu gofal brys amlddisgyblaeth.

Cyflwyniad gan Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith

End of life care at home for children in North Wales

A new approach

hope house

01691 671 671
hopehouse.org.uk

tŷ gobaith

Registered charity: 1033859 (England & Wales)



The problem we are trying to solve?

- Estimated around 20 children (age 0-18) die each year in North Wales from a terminal condition. 80% die in hospital, only 10% at home.
- Evidence suggests that when a choice is available parents and children would like to die at home, as long as it is safe and symptoms are controlled
- Getting a child home one last time is important for parents
- Dying at home is often not possible due to lack of medical, nursing and pharmacy support- Currently provided by goodwill



01691 671 671
hopehouse.org.uk



Registered charity: 1003859 (England & Wales)

A new model of care

- Integrated EOL nursing team
 - Diana (children's community) nurses, Tŷ Gobaith Children's Hospice nurses, Cystic Fibrosis nursing team, Oncology nursing team, Technology Dependent nurse
- Common pathway for EOL care across all partner services
- Co-ordination provided by Tŷ Gobaith
- Shared portfolio of specialist equipment
- Out of hours consultant cover
- Out of hours pharmacy cover via hospital pharmacy



01691 671 671
hopehouse.org.uk



Team around the child

- All nurses part of 'one' virtual team
 - Practicing privileges in hospital and hospice
 - Working one hour from home
 - 2 Nurses on call at night
- Nursing care and specialist consultant support
 - Symptom control
 - 24/7 consultant telephone support
 - Administration of medication



01691 671 671
hopehouse.org.uk



Registered charity: 1003859 (England & Wales)

What was the catalyst?

- Changes in personnel
- Successful bid from Tŷ Gobaith to Betsi Cadwaladr UHB for 2 years of nurse part funding (funded from non recurring EOL Board funds)
- Funding from the EOL Board for additional paediatric palliative care consultant sessions in North Wales
- Willingness and commitment of all parties to make this work



01691 671 671
hopehouse.org.uk



Registered charity: 1003859 (England & Wales)

Case study

- December 2018
- Child few weeks old never left hospital- Incurable degenerative condition
- Parents wanted to take her home and if possible for end of life to be at home
- Arrangements put in place to transfer from
 - Glan Clwyd hospital to Tŷ Gobaith for step down care
 - Ty Gobaith to home for a few days
 - Home to Tŷ Gobaith when parents got scared
 - End of life on Christmas Day at Tŷ Gobaith.

hope house

01691 671 671
hopehouse.org.uk

tŷ gobaith

Registered charity: 1003859 (England & Wales)

Next Steps

- Go live from 1st March
 - Commit to make it happen, let paperwork catch up
 - Practice, learn, adapt.
- Test medical cover- GP support
- Formal launch in June
- Extend model to neonates (from 24 weeks gestation)
- Extend model for young adults up to age 25
- Specialist consultant cover based in North Wales
- Prove model works and secure sustainable funding

hope house

01691 671 671
hopehouse.org.uk

tŷ gobaith

Registered charity: 1003859 (England & Wales)

Trafodaeth ar y ddau gyflwyniad:

Fferylliaeth:

Dai Lloyd: Dylai meddyginiaethau 'rhag ofn' fod yn eu lle erbyn hyn, er ei bod yn amlwg nad yw hyn bob amser yn wir. Mae angen i deuluoedd hefyd fod wedi cael sgwrs ar lefel briodol ynglŷn â chynllun gofal ymlaen llaw cyn i feddyginiaethau 'rhag ofn' gael eu defnyddio.

Andy Goldsmith: Yn aml, ni ellir rhyddhau plant o'r ysbyty ar nos Wener tan ddydd Llun, pan fydd y fferyllfa ar agor. Dylai'r fferyllfa fod ar gael 24/7.

Tracy Jones: Nid yw meddyginiaethau 'rhag ofn' yn gweithio cystal ar gyfer paediatreg, gan fod llawer o feddyginiaeth yn gallu bod y tu hwnt i'r drwydded neu'r gyfradd. Mae fferylllydd rhan amser newydd bellach yn

cael ei gyflogi gan Tŷ Hafan, ond dim ond yn rhannol y bydd yn mynd i'r afael â bylchau y tu allan i oriau.

Mark Isherwood: Ystyried rôl fwy ar gyfer fferyllwyr cymunedol i hwyluso gwell mynediad at feddyginiaeth y tu allan i oriau.

Kay Jeynes: Mae byrddau iechyd yn buddsoddi mewn fferyllwyr cymunedol ar gyfer gwasanaeth y tu allan i oriau. Nid yw cwmnïau fferyllol mawr bellach yn gweld y tu allan i oriau yn fasnachol hyfyw.

Stephen Bassett: Dylai plant gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda meddyginiaethau ysbyty. Mae angen i bob aelod o staff fod yn hyblyg yn eu hymagwedd a chymryd cyfrifoldeb yn hytrach na gweld pethau fel cyfrifoldeb pobl eraill.

Ni chaiff meddyginiaethau 'rhag ofn' eu defnyddio'n dda yn gyffredinol, neu mae'r blwch yn bresennol ond ni ellir ei weinyddu.

Gallm edrych ar reoli meddyginiaethau o bell yn y dyfodol.

Emma Saysell: Mae system fferyllfeydd cymunedol yn gweithio'n dda yn BILAB gyda meddyginiaethau'n cael eu cludo mewn tacsï o fferyllfa i gartref y claf.

Stephen Bassett: Mae angen ymagwedd hyblyg at ragnodi y tu allan i oriau gyda'r clinigydd mwyaf priodol sydd ar ddyletswydd yn ystod y cyfnod yn rhoi'r presgripsiwn.

Mae rhagnodi electronig ar draws Cymru yn bell o fod yn realiti. Yn hynny o beth, mae Cymru y tu ôl i Loegr.

Pediatreg

Tracy Jones: Gofyn a yw 111 GIG wedi'i gysylltu â thimau nyrsio cymunedol pediatrig, fel gyda nyrsys ardal.

Kay Jeynes: Mae'r meddyg teulu yn parhau yn ganolog i hyn, hyd yn oed ar gyfer paediatreg, ar gyfer y plentyn a'i deulu.

Ruth Richardson: Ni fydd meddygon teulu bob amser mewn cysylltiad â phlant sydd ag anghenion cymhleth iawn.

Mae plant ar ddiwedd oes yn gymwys ar gyfer gofal parhaus ond mae adnoddau nyrsio yn gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Powys. Yn ddibynnol ar ewyllys da nyrsys sy'n teithio pellteroedd hir. Nid yw'r model hwn yn gynaliadwy dros gyfnodau hirach.

Andy Goldsmith: Gobeithio cyflwyno model gofal diwedd oes ar draws yr ardaloedd hosbis yng Nghymru a Lloegr. Bydd yn gweithio gyda Tŷ Hafan i geisio goresgyn heriau ardaloedd gwledig Powys.

Llinell gynghori arbenigol24/7

Mark Isherwood: Cyfeiriodd ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol at ddarparu adnoddau ar gyfer y llinell gynghori arbenigol 24/7.

Cadarnhaodd Emma Saysell ac Andrew Wilson-Mouasher fod Gofal Hosbis Dewi Sant a Marie Curie yn gweithredu'r llinell yn eu hardaloedd.

Pwyntiau gweithredu | Action points

- Y cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd i geisio eglurder ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru i sicrhau cynnydd a chydlynad ar ofal lliniarol yng Nghymru yn dilyn diddymu'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes yn 2020.
- Cyflwyno cwestiynau i'r Gweinidog ar ddarpariaeth fferylliaeth a meddyginiaethau y tu allan i oriau.

UFA | AOB

- Darlith Marie Curie - 19 Chwefror 2019, 18:30, Pierhead
- Lansiad Apêl Cennin Pedr Marie Curie - 20 Chwefror 2019, 12:30, Y Senedd
- Yn ddiweddar, cwblhaodd Dr Ian Jones, meddyg teulu ym meddygfa Glyn Ebwy, waith ymchwil ar breswylwyr cartrefi gofal yn cael eu derbyn i'r ysbyty ar ddiwedd eu hoes. Cysylltwch ag Ian yn uniongyrchol am ragor o wybodaeth.

